John Griffiths AS
Cadeirydd, Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

15 Hydref 2020

Annwyl Gadeirydd,

**Ynghylch: Sesiwn dystiolaeth gyda’r Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip, 12 Hydref 2020**

Gobeithio eich bod chi a’ch teulu yn cadw’n dda yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Yn dilyn eich sesiwn dystiolaeth gyda’r Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip, roeddwn yn meddwl y byddai’n ddefnyddiol ailddatgan fy safbwynt ynghylch adroddiad Llywodraeth Cymru *Ailadeiladu Covid-19: Heriau a Blaenoriaethau* a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf.

Mae elfennau o’r adroddiad a fydd, yn fy marn i, o fudd i bobl hŷn ac sy’n adlewyrchu rhai o’r materion a drafodais gyda’r Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd mewn cyfarfod ym mis Mehefin ac sydd wedi’u nodi yn fy adroddiad *Gadael Neb ar Ôl: Camau gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hŷn*, a gyhoeddwyd ym mis Awst.

Fodd bynnag, fel y dywedais yn fy ymateb i’r adroddiad, cefais sioc a siom nad oedd yr adroddiad yn cydnabod pobl hŷn yn benodol fel grŵp y mae pandemig Covid-19 wedi effeithio’n anghymesur arno, nac yn cydnabod eu cyfraniadau pwysig i gymdeithas Cymru, ein heconomi, a rôl hollbwysig pobl hŷn yn adferiad ac yn nyfodol Cymru.

Rwyf wedi ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd i amlinellu fy mhryderon ac rwyf wedi gofyn am gyfarfod i drafod yn adeiladol y camau sydd eu hangen i sicrhau bod pob cenhedlaeth yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod a’u gwerthfawrogi a bod pobl hŷn yn gallu cymryd rhan lawn yn y gwaith o ailadeiladu ac adfer Cymru.

Yr wyf yn ymwybodol bod Age Cymru ac arweinwyr sefydliadau cenedlaethol pobl hŷn Cymru wedi codi pryderon tebyg, ac wedi ysgrifennu hefyd at y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, neu os gallaf gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'ch ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yr wyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd, a'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er gwybodaeth iddynt.

Yn gywir,



Heléna Herklots CBE
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

CC:
Jane Hutt, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Jeremy Miles, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd
Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol